# Cyngor Cymuned Tudweiliog

## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 12ed Rhagfyr 2022

Presennol: Gareth Jones, Alyn Williams, Terry Huws, Chris Brady, John Davies, Dafydd Richard Williams.
Ymddiheuriadau: Alan Hughes, Sioned Pearson, Henry Hughes

1. Cadeiriwyd gan Gareth Jones ac estynnodd groeso i bawb.

2. Mynedodd y Cadeirydd gydymdeilad y Cyngor ac Alan Hughes ar golli ei wraig ac i Sioned Pearson ar golli ei chwaer ynghyfraith.

3. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Adroddiad y Cynllun Peilot** – Derbynwyd gopi o'r Cynllun Peilot fel ac yr addawodd Catrin Huws a Steffan Smith mis diwethaf, ond oherwydd na chafwyd amser I'w ddarllen, bydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis nesaf.
   b. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy** – Hyd yn hyn ni dderbynwyd ymateb gan yr adran Gynllunio Cyngor Gwynedd, bydd y Clerc yn cysylltu a nhw eto.
   c. **Tir Garnfadryn –** Bydd y Clerc yn cysylltu a John Lloyd Williams Chartered Surveyor i gael arweiniad a prisio'r tir.
   ch. **Cyfethol – 1 sedd wag –** Gan nad oedd Henry Huws yn bresennol penderfynwyd trafod mis nesaf.
   d. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Eglurodd Chris Brady iddo gael gair hefo Swyddog o Stad Cefnamwlch, bydd y Stad nawr yn gwybyddu'r tenant am y bwriad, bydd y Swyddog yn dod nol hefo mwy o wybodaeth yn fuan.
   dd. **Lloches bws Tudweiliog –** Erbyn hyn bu i Gareth Jones baentio a thwtio'r lloches bws. Cyflwynodd dderbynneb o £50.38 am gost

y paent ac ati – derbynnwyd caniatad i'w dalu.

e. **Diffib Tudweiliog –** Dylai'r Clerc dderbyn cadarnhad yn ystod mis Rhagfyr os ydi'r cais wedi ei dderbyn.

f. **Archwyliad Allanol Audit Wales –** Hyd yma does dim ymateb wedi ei dderbyn ynglyn a'r Archwyliad.

ff. **Cloddiau angen eu barbio Tan Fron Garnfadryn –** Derbyniodd y Clerc ymateb gan yr adran Ffyrdd yn gwybyddu y bydd perchennog y tir yn barbio'r cloddiau yn fuan.

g. **Dwr ar Lon Beudu Bigyn –** Derbyniodd y Clerc ymateb gan yr adran ffyrdd yn gwybyddu fod y mater yn cael ei drafod ac y bydd gwaith yn cychwyn pan fydd adnoddau ar gael.

Ng. **Ffordd I lawr Porth Colmon –** Derbyniodd y Clerc ymateb gan yr Adran ffyrdd yn cadarnhau y bydd y ffordd yn cael ei harchwylio Ac y bydd unrhyw waith sy'n angenrheidiol yn cael ei wneud yn fuan.

h. **Arwydd 40mya wrth Cyffordd am Towyn** – Anfonodd y Clerc ebost I'r Adran Ffyrdd, hyd yma ni dderbynwyd ymateb.

5. Gohebiaeth:

a. **Cais Cynllunio C22/1116/46/DT Cae Helyg, Tudweiliog –** Dim Sylw

b. **Cais Cynllunio C22/1057/46/DT Bryn Colau, Llaniestyn –** Dim Sylw

c. **Anfoneb J.A.Pozzi –** Derbynwyd anfoneb o £684.00 am dorri llwybrau – derbynwyd caniatad I'w thalu

6. **Unrhyw fater arall-**

**a.** Daeth pryder eto I law am gyflwr Pont ger Siop y Bont Llangwnnadl yn dibyn gwrthdrawiad arni. Derbynwyd ymateb gan yr Adran Ffyrdd yn datgan fod y digwyddiad wedi ei nodi ganddynt, ond hyn yma does dim wedi ei wneud I'w hadfer – bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran unwaith eto.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 9fed Ionawr 2023 am 7.30yh